

## Paratoi'r gwenyn at y gaeaf

Peter McFadden  
www.conwybeekeepers.org.uk

Tri phrif achos colli gwenyn dros y gaeaf yw nythfa heb frenhines, llwgu a varroa. Gall y gwenynwr reoli pob un o'r rhain. Mae eich gwenyn yn adnodd gwerthfawr, ac yn haeddu eich sylw pennaf. Y gwenyn yn gyntaf, a'r gwyliau'n ail! Fy nod yw colli dim mwy nag un cwch o bob deg dros y gaeaf. Hen waith diflas yw glanhau cychod marw yn y gwanwyn.

Dylech geisio cwblhau eich gwaith paratoi at y gaeaf erbyn canol mis Hydref. Defnyddiwch ein cerdyn cofnodi Paratoadau at y Gaeaf i gadw cofnod o'ch paratoi. Anelwch at uchafswm o 10% o golledion dros y gaeaf. Mae'r nodiadau hyn yn berthnasol i gychod nad ydynt yn cael eu symud at y grug ym mis Awst.

*Cam 1.* Canol mis Awst i ddechrau mis Medi. Edrychwch i weld bod gan y nythfa frenhines sy'n dodwy, wyau a larfa a mag wedi'i selio. Os nad oes brenhines, unwch y nythfa ag un sydd â brenhines, neu galwch am help. Dylai fod gan eich nythfa o leiaf bum ffrâm ddofn o weny. Rwy'n gaeafu fy nghychod ar fag a hanner, heb wahanlen (*queen excluder*).

*Cam 2.* Yr un diwrnod â Cham 1. Tynnwch unrhyw loffydd mêl sydd wedi'u llenwi'n rhannol. Gwiriwch bwysau'r cwch drwy godi un ochr o'r stand. Dylai'r cwch deimlo fel petai wedi'i hoelio wrth stand y cwch. Bydd ar nythfa angen yr hyn sy'n cyfateb i tua 18kg o fêl neu syrrip siwgr i oroesi'r gaeaf. Bonws yw unrhyw fêl hwyr gaiff ei storio ym mis Medi. Bwydwch unrhyw gychod ysgafn â bwydwr sydyn, gorau oll os yw'n fwydwr hambwrdd, Miller neu Ashforth. Gyda'r rhain gallwch fwydo hyd at 10 litr o syrrip yn gyflym iawn. Gwnewch syrrip gydag un llond tegell drydan o ddŵr poeth i 3 x 1kg o siwgr. Gwnewch y fynedfa i'r cwch yn llai a bwydwch gyda'r nos fel nad oes dwyn yn digwydd.

Ceisiwch orffen bwydo at y gaeaf erbyn dechrau mis Medi. Mae bwydo ym mis Medi'n ysgogi'r frenhines i barhau i ddodwy am dipyn. Os nad ydych chi'n bwydo tan fis Hydref, efallai y bydd y tywydd yn oer a fydd y gwenyn ddim yn mynd â'r bwyd i lawr.

*Cam 3.* Tynnwch y bwydwr gwag pan fydd pwysau'r cwch yn iawn. Gosodwch estyniad (*eke*), ffrâm bren sgwâr 25mm o uchder, ar y bocs mag uchaf. Rhowch hambwrdd o Apiguard ar y fframiau mag uchaf, gyda'r ochr agored i fyny, a rhowch y caead yn ôl ar yr estyniad, gyda'r tyllau bwydo wedi'u cau. Os ydych chi'n defnyddio llawr rhwyllau agored, gosodwch yr hambwrdd dal gwiddon a rhowch

sgwâr o hen garped neu ddarn o bolystyren wedi'i ehangu neu Kingspan ar y clawr. Mae hwn yn aros yno drwy'r gaeaf.

Y nod yw gosod eich hambwrdd cyntaf o Apiguard erbyn dechrau mis Medi. Rydych chi eisiau cwch sy'n llawn o wenyn iach at y gaeaf. Os arhoswch chi tan fis Hydref, mae'n rhy hwyr. Bydd eich cwch eisoes yn llawn o wenyn wedi'u difrodi gan varroa, ac ychydig iawn o fag newydd i ddod yn eu lle.

*Cam 4.* Ar ôl deng niwrnod, tynnwch yr hambwrdd dal gwiddon a nodwch a yw nifer y gwiddon sydd wedi marw'n isel, yn ganolig neu'n uchel, o'i gymharu â'ch cychod eraill. Crafwch yr hambwrdd yn lân a'i ailosod.

Edrychwch i weld a yw'r hambwrdd Apiguard wedi cael ei wacáu. Os yw, gosodwch yr ail hambwrdd. Gadewch yr hambwrdd cyntaf yn ei le, i'ch atgoffa eich bod chi wedi gosod yr ail hambwrdd. Os nad yw, arhoswch bedwar diwrnod arall ac yna gosodwch yr ail hambwrdd.

*Cam 5.* Ar ôl pythefnos, tynnwch y ddau hambwrdd Apiguard. Crafwch unrhyw Apiguard sydd ar ôl ar y fframiau uchaf. Tynnwch yr estyniad a'r hambwrdd dal gwiddon. Glanhewch nhw i'w storio dros y gaeaf.

*Cam 6.* Dewisol, yr un diwrnod â cham 5. Gosodwch lofft fêl o grwybrau wedi'u tynnu, gan gynnwys unrhyw grwybrau sydd wedi'u llenwi'n rhannol neu grwybrau gwlyb ar ôl tynnu'r mêl, i storio mêl diwedd y tymor, Jac y neidiwr neu iorwg. Does dim angen gwahanlen.

*Cam 7.* Tynnwch y bloc mynediad a gosodwch y gard llygod.

Nawr cewch fynd ar eich gwyliau!

